Gweiddi

# Pa ap?

1. Pa frawddeg sy'n gysylltiedig â pha unigolyn?

Mae'r gallu i ysgrifennu negeseuon hir ar Facebook yn beth da.

## ELERI

Mae'r person yma'n hoff iawn o'r ffordd y gellir addasu lluniau ar Instagram

Mae'r ffordd mae Facebook yn gallu personoli dy ffrwd newyddion a'r hysbysebion yn beth da.

## DAN

Mae Twitter "ar flaen y gad" wrth rannu newyddion y byd.

Mae Twitter yn symud yn rhy gyflym.

## JESS

Mae hysbysebion yn gallu dylanwadu ar y ffordd rwyt ti'n meddwl heb i ti wybod.

Mae Twitter yn lle da i anturio a darganfod pethau newydd.

2. Gan ddefnyddio barn Eleri, Dan a Jess llenwch y tabl:

| | **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| **Facebook** | | |
| **Instagram** | | |
| **Twitter** | | |

3. Mewn grŵp, dewiswch dri ap yr ydych chi'n hoffi eu defnyddio a llenwch y tabl:

| **Enw Ap** | **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

4. Gwaith unigol:

Dewiswch un ap o'r rhai rydych chi wedi eu trafod ac ysgrifennwch tua 500 gair er mwyn cyflwyno'r ap. Dychmygwch nad oes gan y darllenydd unrhyw brofiad na gwybodaeth am apiau a'ch bod chi'n ceisio ei berswadio i lwytho'r ap i'w ffôn. Disgrifiwch beth yw ei brif bwrpas, soniwch am y manteision a'ch hoff agweddau. Soniwch hefyd am yr anfanteision ond cofiwch mai perswadio darllenydd i lwytho'r ap yw eich nod.

4. Trafodwch mewn grŵp pa mor effeithiol yw sgiliau trafod y tri. Dyma bethau i'w hystyried:

- Ydy'r unigolyn yn bendant yn eu barn?
- Ydyn nhw'n gwrando ar safbwyntiau eraill?
- Ydyn nhw'n defnyddio safbwyntiau'r ddau arall wrth ddadlau?
- Ydyn nhw'n afresymol neu'n rhesymol?
- Ydyn nhw'n llwyddo i ddod at ddiweddglo taclus?